




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cefnogi proses cyflwyno un Llys Teulu – Newidiadau i gynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd

Ymateb i'r ymgynghoriad
Cyhoeddwyd: 29 Ionawr 2014





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cefnogi proses cyflwyno un Llys Teulu – Newidiadau i gynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd

Ymateb i ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Pennod 1:	Crynodeb gweithredol	3
Pennod 2:	Ymateb i'r ymgynghoriad	5
Pennod 3:	Datganiad Cydraddoldeb	7
Atodiad A:	Ymateb i'r Ymgynghoriad	9
Atodiad B:	Fframwaith Diwygiedig y Cynllun Cymorth Cyfreithiol i Deuluoedd	15
Atodiad C:	Awgrymiadau/materion eraill a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad	22
Atodiad D:	Rhestr Termau	25

Pennod 1: Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad a'r Ddadl dros ddiwygio

- 1.1 Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd yn defnyddio haen y llys fel un o'r procsiaid ar gyfer cymhlethdod yr achos, gyda'r taliadau am wasanaethau cymorth cyfreithiol yn cael eu gwneud ar sail haen y llys lle gwrandewir neu y penderfynir ar yr achos, gyda chyfraddau uwch yn cael eu talu yn y llysoedd ar lefelau uwch. Yn 2014, bydd y Llysoedd Ynadon a'r Llysoedd Sirol yn rhoi'r gorau i wrando ar achosion teulu. Yn lle hynny, yr un Llys Teulu newydd fydd y llys cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o achosion teulu yng Nghymru a Lloegr. Ymysg y Barnwyr a fydd yn gallu eistedd yn y Llys Teulu newydd y mae Ynadon Lleyg, Barnwyr Rhanbarth, Barnwyr Cylchdaith a Barnwyr yr Uchel Lys. Mae rhestr lawn ar gael yn adran 31C o Ddeddf Achosion Priodasol a Theulu 1984 (sydd wedi'i mewnosod yn Atodlen 10 i'r Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013). Bydd yr Uchel Lys yn dal i allu gwrandao ar achosion teulu. Ond, bydd yn delio'n bennaf â'r materion hynny sydd wedi'u neilltuo ar gyfer yr Uchel Lys, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'i awdurdodaeth gynhenid. Yn y Llys Teulu newydd, gwrandewir ar achosion ar sail y lefel fwyaf priodol o farnwr y bydd ei angen ar gyfer yr achos dan sylw. Felly, mae'n rhaid gwneud newidiadau i'r fframwaith talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd i wneud yn siŵr bod y cynllun cymorth cyfreithiol yn adlewyrchu'r system llysoedd newydd.
- 1.2 Ymgynghorodd y Llywodraeth ar gynnig i newid y cynlluniau cyfredol ar dalu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd ym mis Hydref 2013. Roedd rhaid gwneud y newidiadau hyn i sicrhau bod y Llys Teulu newydd yn cael ei gyflwyno'n effeithiol. Mae'r ddogfen hon yn amlygu'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn disgrifio sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen.

Y broses ymgynghori a'r canlyniad

- 1.3 Cafodd y cynnig i newid y cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd ei ddatblygu ar y cyd â chyrff proffesiynol sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol cyfreithiol yn y sector cymorth cyfreithiol i deuluoedd. Y bwriad, cyn belled ag y bo modd, oedd bod yn gost-niwtral ac, yn sgîl hynny, peidio â chael unrhyw effaith ar y rhai sy'n cael cymorth cyfreithiol na'r rheini sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol i deuluoedd. Roedd y Llywodraeth yn croesawu ymatebion yn benodol oddi wrth bobl y bydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.
- 1.4 Cafodd y Llywodraeth 12 ymateb i'w hymgyngoriad, y rhan fwyaf ohonynt oddi wrth gyrff cynrychiadol neu ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol i deuluoedd. Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r cynlluniau presennol ar gyfer talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd. Felly, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen a'r diwygiadau hyn.

- 1.5 Oherwydd newidiadau tebygol hefyd i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A,¹ gofynnodd y Llywodraeth hefyd am sylwadau cychwynnol ar newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o ffioedd ychwanegol ar gyfer bwndeli llys, sy'n daladwy o dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS). Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo nad oeddynt yn gallu rhoi barn benodol gan nad oedd y newidiadau arfaethedig terfynol i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A ar gael, roedd nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cysyniad o "fwndel cysgodol" wedi'i seilio ar rywfaint neu'r cyfan o'r deunydd sy'n gysylltiedig ag achos. Er nad yw'r Llywodraeth yn teimlo bod y dewis penodol hwn yn ffordd ymarferol o symud ymlaen, mae barn yr ymatebwyr wedi bod yn ddefnyddiol i bennu'r materion ac mae'n bwriadu cyflwyno cynigion eraill i ymgynghori arnynt maes o law ar gyfer newidiadau i'r system o ffioedd ychwanegol yng nghyswllt bwndeli llys.

Gwaith i'r dyfodol

- 1.6 Fel y nodwyd yn ein hymgyngoriad, byddwn yn ystyried pa gamau y bydd angen eu cymryd yng nghyswllt newidiadau ehangach posibl i'r cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd oherwydd newidiadau trefniadol a gweithredol eraill yn y Llys Teulu newydd, er enghraifft y rheini a fydd yn deillio o roi'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus newydd ar waith, unwaith y byddwn yn gwybod pa effeithiau a fydd yn deillio o'r rhain.

Effaith gyffredinol

- 1.7 Bwriad y newidiadau a ddisgrifir yn yr ymateb hwn yw sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod darparwyr cymorth cyfreithiol i deuluoedd neu eiriolwyr yn parhau i gael yr un tâl am waith y mae'n rhaid iddynt ei wneud mewn achosion yn y Llys Teulu newydd ond gan fod yn niwtral o ran cost i'r gronfa cymorth cyfreithiol. Wrth ddatblygu'r diwygiadau hyn, mae'r Llywodraeth yn derbyn y gallai'r gwaith olygu cost fechan i'r gronfa cymorth cyfreithiol o ganlyniad i gysoni rôl Barnwr Rhanbarth mewn achosion teulu. Fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, bydd gan Farnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) yr un pwerau a byddant yn gallu gwrando ar achosion ar yr un lefel â Barnwyr Rhanbarth yn hytrach na gwrando ar achosion ar yr un lefel ag Ynadon llebyg, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Hefyd, gallai darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol wynebu cost fechan yn sgîl y bwriad i ymestyn cylch gwaith cynghorwyr cyfreithiol, a gallai hyn olygu eu bod yn gwrando ar fwy o achosion nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Ond, nid ydym yn disgwyl y bydd hynny'n digwydd, ac felly, ni chredwn y bydd unrhyw effaith sylweddol. Yn gyffredinol, nid ydym yn disgwyl y bydd effeithiau sylweddol ar y gwasanaethau cyfreithiol presennol ac nid ar y gronfa cymorth cyfreithiol felly ychwaith.

¹ http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_27a

Pennod 2: Ymateb i'r ymgynghoriad

- 2.1 Mae'r Bennod hon yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r papur ymgynghori "*Cefnogi proses cyflwyno un Llys Teulu – Newidiadau arfaethedig i gynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd*".
- 2.2 Mae crynodeb manwl o'r prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'n hymateb manwl ni i'r rheini ar gael yn **Atodiad A**.

Fframwaith y cynllun cymorth cyfreithiol i deuluoedd

- 2.3 Roedd y papur ymgynghori yn cynnig diwygio fframwaith y cynllun cymorth cyfreithiol i deuluoedd presennol (h.y. Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal, y Cynllun Cynrychioli Cyfraith Teulu Preifat a'r Cynllun Eiriolaeth Teulu) er mwyn cysylltu lefelau'r ffioedd yn y cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd yr effeithir arnynt â lefel y barnwr sy'n gwrandao ar yr achos (yn hytrach na haen y llys). Byddai hyn wedyn yn gyson â strwythur y Llys Teulu newydd pan fydd yn dod i rym yn ystod Gwanwyn 2014.
- 2.4 Mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig i fframwaith y cynllun cymorth cyfreithiol i deuluoedd ar gyfer talu am wasanaethau cymorth cyfreithiol i deuluoedd, a fydd yn cysylltu tâl â lefel y barnwr.² Yn achos y Cynllun Eiriolaeth Teulu, bydd taliadau felly'n seiliedig ar lefel y barnwr a fydd yn cynnal y gwrandawriad. Ar gyfer Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal a'r Cynllun Cynrychioli Cyfraith Teulu Preifat, bydd taliadau'n seiliedig ar lefel y barnwr a fydd yn cynnal y gwrandawriad lle bydd yr achos yn dod i ben.
- 2.5 Caiff holl fanylion y cyfraddau sy'n daladwy o dan y cynlluniau perthnasol ar gyfer barnwyr ar bob lefel eu nodi yn **Atodiad B**.
- 2.6 Bwriedir i'r diwygiad hwn gael ei roi ar waith drwy is-ddeddfwriaeth a newidiadau i gontractau a ddaw i rym pan fydd y Llys Teulu newydd yn cael ei roi ar waith.

Taliadau bwndeli llys

- 2.7 Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn am sylwadau cychwynnol ar newidiadau posibl i'r system bresennol o ffioedd ychwanegol sy'n daladwy o dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS) yn sgîl newidiadau posibl i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A a fyddai'n cyfyngu ar faint bwndeli llys. Er nad yw wedi dod i gasgliad am y newidiadau y mae'n bwriadu eu cyflwyno ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn dal yn gadarn o'r farn, fel y nodir ym mharagraff 4.5 o'r papur ymgynghori, y byddai cysylltu'r ffi ychwanegol ar gyfer bwndeli llys â faint o ddeunydd sy'n gysylltiedig â pharatoi'r achos, fel yr awgrymwyd gan nifer o ymatebwyr, yn cyflwyno risg na fyddai modd ei rheoli o eiriolwyr neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol yn hawlio mwy o

² At ddibenion y ddogfen hon, mae cyfeiriad at "barnwr" yn cynnwys Clercod Ynadon a'u Cynorthwyr.

ffioedd ychwanegol fel mater o drefn nag sy'n cael eu hawlio ar hyn o bryd ac felly nid yw'n ateb ymarferol. Yn hytrach, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cynigion eraill i ymgynghori arnynt maes o law.

Newidiadau ehangach

- 2.8 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y byddai angen gwneud newidiadau ehangach oherwydd effaith ddisgwyliedig treialu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig a newidiadau eraill i weithdrefnau ac ymarfer yn y Llys Teulu a allai effeithio ar y gwaith yr oedd yn rhaid i ddarparwyr cymorth cyfreithiol neu eiriolwyr ei wneud. Er nad yw'n berthnasol i'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, sydd wedi'u cyfyngu i'r newidiadau y bydd yn rhaid eu gwneud i sicrhau bod y cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd yn adlewyrchu strwythur y Llys Teulu newydd, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ystyried unrhyw newidiadau ehangach posibl unwaith y bydd digon o wybodaeth ar gael i allu modelu unrhyw newidiadau. Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno.

Pennod 3: Datganiad Cydraddoldeb

- 3.1 Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried effaith unrhyw newidiadau mewn polisi ar grwpiau gwahanol ac, yn yr achos arbennig hwn, yr effeithiau ar eiriolwyr a darparwyr cymorth cyfreithiol.
- 3.2 Yn unol â'i dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r Llywodraeth wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig i'r fframwaith cynllun cymorth cyfreithiol ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol ac eiriolwyr er mwyn rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i ddileu ymddygiad anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.³
- 3.3 Yn sgîl ein dadansoddiad cychwynol, roeddem o'r farn na fyddai dim effaith andwyol nac unrhyw anfantais benodol o ganlyniad i'r newid arfaethedig i fframwaith y cynllun cymorth cyfreithiol i deuluoedd, ond gwnaethom ofyn am farn ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar hyn. Ni chafwyd unrhyw sylwadau penodol gan ymatebwyr am effeithiau cydraddoldeb y cynigion penodol hyn ac nid yw'r estyniad arfaethedig i'r defnydd o gynghorwyr cyfreithiol yn newid ein casgliadau. Mae ein hasesiad, a oedd yn rhagweld na fyddai dim effeithiau o ran cydraddoldeb ar gleientiaid, darparwyr cymorth cyfreithiol nac eiriolwyr gan mai'r bwriad oedd i'r newid arfaethedig fod yn newid cost-niwtral i strwythur y cynllun, yn parhau yr un fath. Mae'r cynnig yn berthnasol i bawb, ni waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig. Felly, nid ydym yn teimlo ei bod yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol na gwahaniaethu yn deillio o anabledd. Nid ydym yn rhagweld y bydd y newid sy'n cael ei gynnis yn effeithio ar lefel y taliadau i weithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol i deuluoedd. Nid ydym felly'n rhagweld unrhyw effaith anghymesur ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig. O gofio bod y newid arfaethedig yn cael ei wneud o ganlyniad uniongyrchol i gyflwyno'r Llys Teulu newydd a bod y fframwaith tâl presennol yn dibynnu ar strwythur llys a fydd yn amherthnasol pan ddaw'r Llys Teulu newydd yn weithredol, rydym o'r farn, petai unrhyw effaith andwyol, y byddai'n gymesur â'r nod dilys o sicrhau bod y peirianwaith talu'n adlewyrchu'r strwythur newydd a fydd yn berthnasol.⁴

³ Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'ystyriaeth ddyladwy' i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt); a
- Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rheini nad ydynt).

⁴ O ran yr angen i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da, rydym o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o danseilio'r gwaith o gyflawni'r amcanion hynny. Gan fwyaf, nid ydym yn ystyried bod newidiadau i'r taliadau cymorth cyfreithiol yn berthnasol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal neu i feithrin cysylltiadau da ymysg y proffesiynau, sydd yn gyfrifoldeb cyrff rheoleiddio'r proffesiynau yn bennaf.

- 3.4 Mae'r Llywodraeth yn nodi bod nifer o ymatebwyr wedi tynnu sylw at faterion cydraddoldeb sy'n gysylltiedig naill ai â'r canlyniadau a fydd yn deillio o weithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) neu weithredu'r un Llys Teulu a/neu'r rhaglen Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn gyffredinol. Nid yw'r materion cydraddoldeb a godwyd mewn perthynas â'r ddeddf hon yn berthnasol i'r cynnig hwn. Yn ogystal, maent i gyd yn ymwneud ag effeithiau sy'n gysylltiedig â chleientiaid cymorth cyfreithiol. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar gleientiaid cymorth cyfreithiol yn sgîl y cynnig hwn. Yr unig newid sy'n cael ei wneud yw'r newid i'r fframwaith tâl ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol. Gan nad yw'n fwriad i'r newid arfaethedig newid y taliadau y mae eiriolwyr neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol i deuluoedd yn eu cael ar hyn o bryd, ni ddylai gael effaith ar ansawdd gwasanaethau na'r gwasanaethau sydd ar gael ac felly, ni ddylai effeithio ar gleientiaid cymorth cyfreithiol.
- 3.5 Bydd effeithiau rhaglen yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (DJR), gan gynnwys rhoi'r Llys Teulu newydd ar waith, yn destun asesiad ar wahân. Gallai effeithiau rhaglen yr FJR a'r Llys Teulu olygu oblygiadau ychwanegol i'r cynllun cymorth cyfreithiol yn y dyfodol, er enghraifft pan geir gwybod beth fydd y sefyllfa derfynol gyda'r Amlinellid Cyfraith Gyhoeddus. Caiff y rhain eu hystyried eto unwaith y bydd digon o wybodaeth ar gael i fodelu unrhyw newidiadau.

Atodiad A: Ymateb i'r Ymgynghoriad

1. Mae'r Atodiad hwn yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r papur ymgynghori "*Cefnogi proses cyflwyno un Llys Teulu – Newidiadau arfaethedig i gynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd*".

Fframwaith y cynllun cymorth cyfreithiol i deuluoedd

2. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn barn am y newidiadau arfaethedig i fframwaith presennol y cynllun cymorth cyfreithiol i deuluoedd a fyddai'n cysylltu tâl â lefel y barnwr yn hytrach nag â haen y llys.
3. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn:
 - C1: A ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn y cynlluniau dan sylw i gysylltu'r taliad â'r farnwriaeth yn hytrach na haen y llys? Rhowch resymau os gwelwch yn dda**
 - C2: A ydych chi'n credu bod dewis arall addas er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol yn unol â'r nodau a nodir ym mharagraff 2.8 y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

Y prif faterion a godwyd

4. Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi cynnig y Llywodraeth i gysylltu lefel y tâl â lefel y barnwr sy'n gwrando'r achos. Ond, gwnaethpwyd nifer o bwyntiau lle gofynnwyd am ragor o eglurder yn arbennig yng nghyswllt lefel y tâl am wrandawiaadau a gynhelir gan gynghorwyr cyfreithiol (Clercod Ynadon a Chlercod Ynadon cynorthwyol). Ar hyn o bryd, caiff cynghorwyr cyfreithiol gyflawni rhai o swyddogaethau un ynad yn y Llys Achosion Teulu a all gynnwys cynnal gwrandawiaadau. Er bod ymatebwyr wedi rhagdybio y byddai'r tâl ar yr un lefel â thâl Ynadon llebyg, mynegwyd pryder ganddynt nad oedd hyn yn glir yn yr ymgynghoriad.
5. Hefyd, er ei fod yn cefnogi cynnig y Llywodraeth, lleisiodd Resolution bryderon am y tâl i eiriolwyr pan fyddai barnwr ar lefel wahanol i'r un y dyrannwyd yr achos iddi yn gwrando ar wrandawriad neu wrandawiaadau penodol. Yn y cyd-destun hwn, roeddynt yn dadlau, fel ar hyn o bryd, bod angen i'r tâl i eiriolwyr fod yn gysylltiedig â lefel y barnwr ar gyfer pob gwrandawriad yn hytrach na'r barnwr a ddyrennir i'r achos. Roedd yn rhaid cael hyn i sicrhau bod taliadau, fel ar hyn o bryd, yn parhau i adlewyrchu cymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried ymhob gwrandawriad.
6. Awgrymodd un ymatebydd fod tâl ar sail lefel y barnwr yn brocsi gwael am gymhlethdod. Er enghraifft, roedd yn debygol iawn, o gofio bod adnoddau barnwrol/llys yn gyfyngedig, y byddai achosion a wrandawir gan Ynadon llebyg yr un mor gymhleth â'r achosion a wrandawir gan Farnwyr Rhanbarth. Awgrym arall ar gyfer mesur cymhlethdod fyddai creu system o sgorio cymhlethdod.

7. Awgrymodd un ymatebydd hefyd y dylai'r tâl mewn achosion a ddyrennir i Farnwyr Cylchdaith fod ar lefel uwch gan fod y cyfryw farnwyr ar hyn o bryd yn tueddu i wrando achosion mwy cymhleth na barnwyr eraill yn y Llys Sirol.
8. Barn gyffredinol yr ymatebwyr oedd yr angen i gynnal adolygiad o weithrediad y cynllun yn y dyfodol i weld a yw'n niwtral o ran cost.

Ymateb y Llywodraeth

9. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae'r diwygiad arfaethedig i'r fframwaith tâl wedi'i gyfyngu'n llym i'r hyn sy'n angenrheidiol i adlewyrchu strwythur y Llys Teulu newydd. Nod y newidiadau hyn, a ddatblygwyd ar y cyd â chyrff cynrychiadol o'r proffesiwn cyfreithiol, yw sicrhau bod y newidiadau canlyniadol hyn, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn niwtral o ran cost, yn adlewyrchu'r strwythur a'r lefelau tâl presennol ac yn osgoi cyflwyno risgiau na fydd modd eu rheoli i'r ffordd y caiff y gronfa cymorth cyfreithiol ei stiwardio. Mae hyn yn berthnasol iawn o gofio am yr hinsawdd ariannol presennol a mesurau effeithlonrwydd a diwygio ehangach eraill sydd heb gael effaith eto. O'r herwydd, nid ydym yn diwygio'r sail a ddefnyddir ar hyn o bryd i fesur cymhlethdod. Nid yw'n fwriad ychwaith i'r diwygiadau arfaethedig ystyried unrhyw newidiadau eraill a all fod yn ofynnol o ganlyniad i newidiadau i weithdrefnau ac ymarfer yn y Llys Teulu newydd. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn y dyfodol pan fydd gwybodaeth ar gael ar sut mae'r Llys Teulu newydd yn gweithredu.
10. Yn niffyg unrhyw ffordd wrthrychol a chadarn o fesur cymhlethdod mewn achosion teulu y gellir ei defnyddio'n gyson ar yr un pryd â sicrhau canlyniad i eiriolwyr neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol a'r gronfa cymorth cyfreithiol, mae'r cynlluniau presennol ar gyfer talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd yn defnyddio lefel y llys sy'n cynnal y gwrandawriad perthnasol fel un procsi i gymhlethdod. Mae hyn nid yn unig yn darparu system syml a hawdd ei deall i eiriolwyr a darparwyr cymorth cyfreithiol, mae hefyd yn galluogi'r system i adlewyrchu'n briodol benderfyniadau rheoli achos unigol sy'n ystyried cymhlethdod ar sail achos wrth achos. Er nad yw'r Rheolau sy'n pennu'r ddarpariaeth ar gyfer dosbarthu busnes y Llys Teulu, a'i gyfansoddiad, wedi'u gwneud eto gan Lywydd yr Adran Teulu, a heb eu caniatáu eto gan yr Arglwydd Ganghellor, y bwriad polisi yw na fydd cymhlethdod yn cael ei ddiffinio yn y Rheolau ac na fydd y Rheolau yn rhy rhagnodol. Y bwriad yw cael hyblygrwydd er mwyn i dimau dyrannu barhau i arfer disgresiwn ar lefel leol ynghylch lefel y barnwr i'w ddyrannu i'r gwrandawriad ar sail amgylchiadau'r achos unigol. O'r herwydd, mae'n hanfodol bod y sail dros wneud taliadau o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd yn aros yn ddigon hyblyg ar gyfer cyflawni hyn.
11. Yng nghyswllt ceisiadau am ragor o eglurder ynghylch lefelau talu ar gyfer gwrandawriadau a gynhelir gan lefelau penodol o farnwr, y bwriad yw i'r rhain adlewyrchu arfer cyfredol. Yn y cyd-destun hwn, felly, byddai'r un ffi yn cael ei chodi ar gyfer achos a wrandewir gerbron cynghorydd cyfreithiol ag achos a wrandewir gerbron ynadon llewg, gan adlewyrchu natur llai cymhleth y gwrandawriadau hyn yn gyffredinol. Er bod y Llywodraeth yn nodi y gallai darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol wynebu cost fechan oherwydd y bwriad i ymestyn cylch gwaith cynghorwyr cyfreithiol a allai, o ganlyniad, olygu eu bod yn gwrando ar fwy o

achosion nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, yn ymarferol ni chredir y bydd hyn yn digwydd. Ni ddisgwylir y bydd yr effaith ar ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn fawr iawn. Hefyd, er y disgwylir y bydd yr angen i drosglwyddo achosion rhwng lefelau gwahanol o farnwr yn llai, fel ar hyn o bryd, os gwrandewir achos gerbron lefel wahanol o farnwr i'r un a ddyrannwyd i'r achos, bydd eiriolwyr yn cael eu talu ar y gyfradd sy'n briodol i'r barnwr sy'n llywyddu yn y gwrandawriad hwnnw o dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu. Penderfynir ar lefel y tâl i gyfreithiwr o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal ar sail lefel y barnwr a fydd yn gwrando'r gwrandawriad terfynol. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, dilynir yr un drefn â'r un a ddefnyddir o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal yng nghyswllt taliadau i eiriolwyr neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol yn gyffredinol o dan y cynllun Cynrychioli Cyfraith Teulu Preifat.

12. Nid yw'n fwriad y bydd cyflwyno'r Llys Teulu newydd yn arwain o anghenraid at Farnwyr Cylchdaith yn gwrando ar achosion mwy cymhleth nag a fyddai'n digwydd fel arall. O gofio mai bwriad y diwygiadau arfaethedig yw gweithredu ar sail cost-niwtral er mwyn ceisio sicrhau bod darparwyr cymorth cyfreithiol neu eiriolwyr yn parhau i gael eu talu ar yr un gyfradd â'r gyfradd bresennol am waith y bydd angen ei wneud yn y Llys Teulu newydd, does dim cyfiawnhad dros newid y cyfraddau presennol ar gyfer achosion a wrandewir gerbron Barnwyr Cylchdaith yn y llys hwnnw.
13. Bwriad y diwygiadau arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori oedd cyflwyno'r nifer lleiaf posibl o newidiadau i sicrhau y gallai cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd weithredu'n llwyddiannus yng ngoleuni strwythur y Llys Teulu newydd. Gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, mae'r Llywodraeth yn dal yn fodlon mai'r diwygiadau arfaethedig, a fyddai'n cysylltu taliadau o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd â lefel y barnwr sy'n cynnal y gwrandawriad perthnasol yn hytrach nag â lefel y llys, yw'r peirianwaith mwyaf cost-niwtral ar gyfer sicrhau y caiff eiriolwyr neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol y tâl priodol ar ôl i'r Llys Teulu newydd gael ei gyflwyno.
14. Ond, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y system cyfiawnder teuluol yn wynebu rhaglen ddiwygio sylweddol ac y gallai fod angen gwneud rhagor o newidiadau. Yn y dyfodol, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithio gyda'r cyrff cynrychiadol i sicrhau bod y cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd yn parhau i ddarparu'r tâl priodol am waith y mae'n rhaid ei wneud. Pan fydd effeithiau newidiadau ehangach i'r cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd, a fyddai'n arwain at ailstrwythuro rhagor ar y fframwaith tâl presennol neu newid lefel y taliadau, yn cael eu pennu, y bwriad fyddai ystyried pa gamau allai fod yn ofynnol unwaith y daw manylion effeithiau'r newidiadau yn glir ac y bydd modd eu modelu'n effeithiol.

Casgliad

15. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'i chynnig i gysylltu taliadau o dan y:
 - (a) Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Teulu a'r Cynllun Cynrychioli Cyfraith Teulu Preifat â lefel y barnwr sy'n llywyddu yn y gwrandawriad terfynol; a

- (b) y Cynllun Eiriolaeth Teulu â lefel y barnwr sy'n llywyddu ymhob gwrandawriad unigol.
16. Mewn unrhyw wrandawiadau o dan law Clerc Ynadon neu Glerc Ynadon Cynorthwyol, byddai'r gyfradd tâl yr un fath ag yn y gwrandawiadau hynny a gynhelir gan Ynadon lleyg.
17. Mae'r fframwaith diwygiedig a fydd yn berthnasol ar gael yn **Atodiad B**.
18. Bwriedir i'r fframwaith diwygiedig ddod i rym, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Senedd, drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth a diwygiadau i gontractau i gyd-fynd â gweithredu'r Llys Teulu newydd.

Taliadau bwndeli llys

19. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau gychwynnol am newidiadau posibl i'r ffioedd ychwanegol sy'n cael eu talu ar hyn o bryd i eiriolwyr o dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu o ganlyniad i newidiadau tebygol i faint bwndeli llys.
20. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn:
- C3. A ydych chi'n cytuno y dylid newid y system gyfredol o ffioedd ychwanegol ar gyfer bwndeli llys sy'n daladwy o dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS) yng ngoleuni'r newidiadau disgwylidig i faint bwndeli'r llys? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.**
- C4. A ydych chi'n credu y gallai cael gwared ar daliadau bwndeli llys ar wahân ac ystyried pennu ffi ychwanegol ar yr un egwyddor â'r ffioedd ychwanegol cyfredol eraill ar gyfer materion cymhleth yn y FAS fod yn ffordd bosibl ymlaen? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.**
- C5. A ydych chi'n credu bod unrhyw ddewisiadau eraill addas a fyddai'n bodloni'r amcanion a nodir ym mharagraff 2.8 y papur hwn? Esboniwch.**

Y prif faterion a godwyd

21. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai angen newid y system bresennol o ffioedd ychwanegol ar gyfer bwndeli llys yng ngoleuni'r diwygiadau posibl i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A ar y sail na fyddai dim ond lleihau maint y bwndel y gellid ei gyflwyno i'r llys yn debygol o effeithio ar gymhlethdod achos. Ond, tra oedd pawb yn cefnogi'r angen i sicrhau bod darparwyr cymorth cyfreithiol neu eiriolwyr yn cael eu talu'n briodol, roedd rhai yn dadlau bod angen mwy o fanylion am natur y newid posibl cyn y gellid cymryd unrhyw benderfyniadau ynghylch sut y dylid diwygio'r system bresennol.
22. Roedd ymatebwyr at ei gilydd yn cytuno nad oedd cymhlethdod wedi'i gyfyngu i dim ond y ffactorau cyfyngedig hynny a oedd yn dod o dan y ffi ychwanegol ar wahân ar gyfer cymhlethdod, ac y byddai'n well cadw rhyw fath o daliad ar wahân i dalu eiriolwyr yn briodol yn yr achosion hynny lle roedd nifer mawr o ddogfennau a/neu llawer iawn o ddarllen i'w wneud. Er bod Cymdeithas y Cyfreithwyr yn credu bod uno'r taliad ychwanegol am fwndeli â'r ffi ychwanegol am gymhlethdod yn bosibl,

roedd y Gymdeithas honno a Chymdeithas y Bar ar gyfer Cyfraith Teulu (FLBA) yn credu y byddai angen gwneud gwaith modelu manwl i sicrhau nad oedd taliadau i eiriolwyr yn cael eu lleihau'n amhriodol.

23. Er bod rhai gwahaniaethau yn y manylion, roedd y cyrff cynrychiadol at ei gilydd o blaid cysylltu taliadau bwndeli â "bwndel cysgodol" yn cynnwys mynegai llawn o'r holl bapurau a gyflwynir i bartïon a/neu yr holl waith darllen gofynnol a wneir gan yr eiriolwr wrth baratoi'r achos y gallai barnwr ardystio iddo yn y gwrandawriad perthnasol. Yn y cyd-destun hwn, awgrymodd Cyngor y Bar a'r FLBA y dylai unrhyw daliadau a wneir o dan system o'r fath adlewyrchu'r holl ddarllen y mae'n rhaid i'r eiriolwr ei wneud a heb gael eu cyfyngu gan y trothwyon presennol.

Ymateb y Llywodraeth

24. Y prif ystyriaethau sy'n llywio taliadau ychwanegol o dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu yw bod yn rhaid iddynt gael mesur gwrthrychol a bod yn destun dilysu annibynnol. Mae'r taliad ychwanegol presennol ar gyfer bwndeli'n cyflawni hyn drwy gysylltu'r taliad â deunydd y mae angen i'r barnwr ei ystyried yn y gwrandawriad ac y gall y barnwr wedyn dystio iddo ar Ffurflen Presenoldeb Eiriolwyr.
25. Efallai y bydd y newidiadau tebygol sydd i'w gwneud i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A y cyfeiriodd Llywydd yr Adran Deulu atynt yn golygu na fydd modd cadw'r ffi ychwanegol ar gyfer bwndeli ar ei ffurf bresennol.⁵ Mae'r taliad ychwanegol ar hyn o bryd ar gyfer bwndeli llys yn berthnasol i daliadau lle mae'r deunydd y mae'n rhaid i'r barnwr edrych arno yn 351 tudalen neu fwy. Os cyfyngir bwndeli llys i 350 tudalen neu lai, bydd y taliad ychwanegol yn amherthnasol. Er bod y Llywodraeth yn nodi pryderon eiriolwyr a darparwyr cymorth cyfreithiol y gallai cysylltu taliadau â mesurau cymhlethdod eraill sydd eisoes yn bodoli effeithio ar rai eiriolwyr neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol, fel y nodir ym mharagraff 4.5 o'r papur ymgynghori, nid yw'n teimlo y byddai cysylltu taliadau â faint o ddeunydd y mae'n rhaid i eiriolwyr neu ddarparwyr cymorth cyfreithiol ei ystyried i baratoi ar gyfer achos yn darparu'r lefel o reolaeth sy'n ofynnol i ddiogelu'r gronfa cymorth cyfreithiol.
26. Hefyd, gallai defnyddio "bwndel cysgodol" a allai gynnwys, er enghraifft, yr holl bapurau a roddir i'r partion neu a ddarllenir gan yr eiriolwr, ymestyn yn sylweddol nifer yr achosion a fyddai'n gymwys am daliadau ychwanegol a hefyd maint y bwndeli yn yr achosion hynny sy'n gymwys ar hyn o bryd am ffi ychwanegol ar gyfer bwndeli gan y byddai'n cynnwys deunydd nad yw ar hyn o bryd yn ffurfio rhan o fwndel y llys. Felly, byddai cost gyffredinol y taliadau i'r gronfa cymorth cyfreithiol yn cynyddu. Ond, nid yw'n glir a fydd naill ai newidiadau i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A neu unrhyw newidiadau gweithdrefnol eraill a fydd o bosibl yn cael eu cyflwyno yn y Llys Teulu newydd yn ei gwneud yn ofynnol i eiriolwyr wneud gwaith ychwanegol yn gyffredinol ac felly y gellid cyfiawnhau unrhyw gynnydd yn y taliadau fel sy'n cael ei gynnig gan rai ymatebwyr.

⁵ Gweler View from the President's Chamber (6); <http://flba.co.uk/wp-content/uploads/2013/09/view6.pdf>

27. Hefyd, nid yw'n glir sut y bydd modd darparu'r broses ddilysu annibynnol sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw ffi ychwanegol. Er bod y Llywodraeth yn nodi'r awgrym gan ymatebwyr y gallai'r barnwr neu'r cynghorydd cyfreithiol yn y gwrandawriad perthnasol ddilysu unrhyw "fwndel cysgodol", nid yw'n glir sut y byddai hyn yn cael ei wneud heb roi baich ychwanegol ar y farnwriaeth neu'r llys. Mae'r ffi ar hyn o bryd ar gyfer bwndel y llys yn cael ei thalu pan fydd y barnwr neu'r cynghorydd cyfreithiol wedi'i ddilysu ar ôl iddynt weld ac ystyried y deunydd yn y bwndel llys fel rhan o broses y gwrandawriad ei hun. Felly, yr unig ffordd o ddarparu lefel debyg o ddilysu annibynnol ar gyfer unrhyw daliad wedi'i seilio ar "fwndel cysgodol" fyddai drwy i'r barnwr neu'r cynghorydd cyfreithiol weld ac ystyried cynnwys pob "bwndel cysgodol". Ond, fel y nodir ym mharagraff 4.7 o'r papur ymgynghori, mae'r Llywydd wedi dweud ei fod am sicrhau nad yw'r farnwriaeth yn gwneud gwaith diangen wrth benderfynu ar achosion. Ni fyddai cynnwys unrhyw "fwndel cysgodol" yn berthnasol i'r gwrandawriad ei hun, ac felly, mae'n amlwg y byddai gorfod dilysu bwndel o'r fath yn waith ychwanegol i'r farnwriaeth. O gofio beth yw pwrpas y newidiadau arfaethedig i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A a'r angen i sicrhau bod y llys yn canolbwyntio'n llawn ar benderfynu ar achosion yn effeithlon o fewn y terfyn amser sy'n cael ei gynnig o 26 wythnos, nid yw'r Llywodraeth wedi'i darbwylllo bod modd cyfiawnhau hyn.
29. Gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai cadw dull ar wahân ar gyfer talu am achosion nad ydynt o anghenraid yn cynnwys y ffactorau penodol a bennir gan y ffi ychwanegol ar wahân ar gyfer bwndeli llys a chymhlethdod yn helpu i sicrhau y derbynnir y tâl priodol am achosion. Ond, er nad yw wedi dod i gasgliad am y newidiadau y mae'n bwriadu eu cynnig ar hyn o bryd, mae'n dal yn gadarn o'r farn, fel y nodir ym mharagraff 4.5 o'r papur ymgynghori, y byddai cysylltu ffi ychwanegol ar gyfer bwndeli llys â faint o ddeunydd sy'n gysylltiedig â pharatoi'r achos, fel yr awgrymwyd gan nifer o ymatebwyr, yn cyflwyno risg na fyddai modd ei rheoli y byddai darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn hawlio mwy o ffioedd ychwanegol fel mater o drefn nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Felly, mae wedi penderfynu na fydd yn bwrw ymlaen â hyn fel opsiwn.
30. Ond, mae'r ymatebion a gafwyd gan ymatebwyr wedi bod yn ddefnyddiol yn pennu'r materion, ac mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cynigion eraill i ymgynghori arnynt ar newidiadau i'r system o ffioedd ychwanegol yng nghyswllt bwndeli llys yn y man.

Atodiad B: Fframwaith Diwygiedig y Cynllun Cymorth Cyfreithiol i Deuluoedd

Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal

Tabl 2(c) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013:⁶ Cynrychiolaeth gyfreithiol – achosion Gofal neu Oruchwyliaeth o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989 yn unig

Haen taliadau cyfredol							Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)						
Parti	Llys	Nifer y Cleientiaid	Canolbarth Lloegr	Gogledd	Llundain a De Lloegr	Cymru	Parti	Unigolion y gwrandewir achosion ger eu bron	Nifer y Cleientiaid	Canolbarth Lloegr	Gogledd	Llundain a De Lloegr	Cymru
Plentyn	Arall	1	£1949	£1598	£2237	£2183	Child	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys)	1	£1754	£1438	£2013	£1965
Plentyn	Arall	2+	£2922	£2396	£3355	£3275	Child	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys)	2+	£2630	£2156	£3019	£2947
Plentyn	Uchel Lys	1	£2591	£2125	£2975	£2903	Child	Barnwr Uchel Lys	1	£2332	£1913	£2677	£2613
Plentyn	Uchel Lys	2+	£3887	£3188	£4461	£4354	Child	Barnwr Uchel Lys	2+	£3498	£2869	£4015	£3919
Parti ar y cyd	Arall		£1033	£798	£1201	£1301	Joined Party	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys)		£930	£718	£1081	£1171
Parti ar y cyd	Uchel Lys		£1374	£1602	£1597	£1730	Joined Party	Barnwr Uchel Lys		£1237	£1442	£1437	£1557
Rhiant	Arall	1	£2556	£2123	£2907	£2633	Parent	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys)	1	£2300	£1911	£2616	£2370
Rhiant	Arall	2	£3196	£2653	£3633	£3291	Parent	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys)	2	£2876	£2388	£3270	£2962
Rhiant	Uchel Lyst	1	£3399	£2823	£3866	£3502	Parent	Barnwr Uchel Lys	1	£3059	£2541	£3479	£3152
Rhiant	Uchel Lys	2	£4249	£3530	£4832	£4378	Rhiant	Barnwr Uchel Lys	2	£3824	£3177	£4349	£3940

⁶ Mae'n cynnwys gostyngiad o 10% o ganlyniad i'r newid a gyhoeddwyd yn y papur Gweddnewid Cymorth Cyfreithiol – Camau Nesaf, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

Tabl Newydd (ar sail Tabl 9(a) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013): Tabl 9aa⁷ – Cynrychiolaeth gyfreithiol – achosion Gofal neu Oruchwyliaeth o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989 yn unig

Haen taliadau cyfredol			Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)		
Gweithgarwch	Llysoedd Uwch	Llys Sirol a Llys Achosion Teulu	Gweithgarwch	Barnwr Uchel Lys neu Lysoedd Uwch	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Lysoedd Uwch)
Paratoi a phresenoldeb (cyfradd Llundain)	£70.07 yr awr	£61.38 yr awr	Paratoi a phresenoldeb (cyfradd Llundain)	£63.06 yr awr	£55.24 yr awr
Paratoi a phresenoldeb (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.84 yr awr	£58.41 yr awr	Paratoi a phresenoldeb (cyfradd y tu allan i Lundain)	£59.26 yr awr	£52.57 yr awr
Presenoldeb mewn llys neu gynhadledd gyda chwmsler	£37.13 yr awr	£32.67 yr awr	Presenoldeb mewn llys neu gynhadledd gyda chwmsler	£33.42 yr awr	£29.40 yr awr
Eiriolaeth (cyfradd Llundain)	£70.07 yr awr	£64.35 yr awr	Eiriolaeth (cyfradd Llundain)	£63.06 yr awr	£57.91 yr awr
Eiriolaeth (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.84 yr awr	£65.84 yr awr	Eiriolaeth (cyfradd y tu allan i Lundain)	£59.26 yr awr	£57.91 yr awr
Amser teithio ac aros	£32.18 yr awr	£29.21 yr awr	Amser teithio ac aros	£28.96 yr awr	£26.29 yr awr

Tabl 9(b) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Achosion Teulu eraill

Haen taliadau cyfredol			Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)		
Gweithgarwch	Llysoedd Uwch	Llys Sirol a Llys Achosion Teulu	Gweithgarwch	Barnwr Uchel Lys neu Lysoedd Uwch	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Lysoedd Uwch)
Anfon llythyrau arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem	Ysgrifennu llythyrau arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem
Derbyn llythyrau arferol	£3.15 yr eitem	£2.70 yr eitem	Derbyn llythyrau arferol	£3.15 yr eitem	£2.70 yr eitem
Galwadau ffôn arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem	Galwadau ffôn arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem
Paratoi a phresenoldeb (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr	Paratoi a phresenoldeb (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr
Paratoi a phresenoldeb (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£54.90 yr awr	Paratoi a phresenoldeb (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£54.90 yr awr
Presenoldeb mewn llys neu gynhadledd gyda chwmsler	£37.13 yr awr	£32.40 yr awr	Presenoldeb mewn llys neu gynhadledd gyda chwmsler	£37.13 yr awr	£32.40 yr awr
Eiriolaeth (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr	Eiriolaeth (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr
Eiriolaeth (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£56.70 yr awr	Eiriolaeth (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£56.70 yr awr
Amser teithio ac aros (cyfradd Llundain)	£32.18 yr awr	£28.80 yr awr	Amser teithio ac aros (cyfradd Llundain)	£32.18 yr awr	£28.80 yr awr
Amser teithio ac aros (cyfradd y tu allan i Lundain)	£32.18 yr awr	£27.90 yr awr	Amser teithio ac aros (cyfradd y tu allan i Lundain)	£32.18 yr awr	£27.90 yr awr

⁷ Bydd y cyfraddau ar gyfer paratoi a phresenoldeb yn y llys neu gynhadledd gyda chwmsler, eiriolaeth ac amser teithio ac aros sy'n berthnasol pan fydd achos o dan adran 31 o Ddeddf Plant 199 (yn unig) yn cyrraedd y trothwy dianc (ac at ddibenion cyfrifo'r trothwy) yn cynnwys y gostyngiad 10% yn y cyfraddau fesul awr a gyhoeddwyd yn y papur Gweddnewid Cymorth Cyfreithiol – Camau Nesaf a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Senedd).

Cynllun Cynrychioli Cyfraith Teulu Preifat

Tabl 3(f) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Cynllun Ffioedd Safonol Uwch – Plant

Haen taliadau cyfredol				Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)			
<i>Rhanbarth</i>	<i>Llys</i>	<i>Ffi Safonol cymorth i deuluoedd (uwch)</i>	<i>Ffi Safonol Cynrychiolaeth Gyfreithiol</i>	<i>Rhanbarth</i>	<i>Unigolion y gwrandewir achosion ger eu bron</i>	<i>Ffi Safonol cymorth i deuluoedd (uwch)</i>	<i>Ffi Safonol Cynrychiolaeth Gyfreithiol</i>
Llundain	Llys ac eithrio'r Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£424	£302	Llundain	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod)	£424	£302
Llundain	Yr Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£509	£362	Llundain	Barnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod	£509	£362
Y tu allan i Lundain	Llys ac eithrio'r Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£353	£251	Y tu allan i Lundain	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod)	£353	£251
Y tu allan i Lundain	Yr Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£424	£302	Y tu allan i Lundain	Barnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod	£424	£302

Tabl 3(g) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Cynllun Ffioedd Safonol Uwch – Cyllid

Haen taliadau cyfredol					Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)				
<i>Rhanbarth</i>	<i>Llys</i>	<i>Ffi Safonol cymorth i deuluoedd (uwch)</i>	<i>Ffi Setliad cymorth i deuluoedd (uwch)</i>	<i>Ffi Safonol Cynrychiolaeth Gyfreithiol</i>	<i>Rhanbarth</i>	<i>Unigolion y gwrandewir achosion ger eu bron</i>	<i>Ffi Safonol cymorth i deuluoedd (uwch)</i>	<i>Ffi Setliad cymorth i deuluoedd (uwch)</i>	<i>Ffi Safonol Cynrychiolaeth Gyfreithiol</i>
Llundain	Llys ac eithrio'r Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£471	£95	£374	Llundain	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod)	£471	£95	£374
Llundain	Yr Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£565	£113	£449	Llundain	Barnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod	£565	£113	£449
Y tu allan i Lundain	Llys ac eithrio'r Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£392	£78	£311	Y tu allan i Lundain	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod)	£392	£78	£311
Y tu allan i Lundain	Yr Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£471	£95	£374	Y tu allan i Lundain	Barnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod	£471	£95	£374

Tabl 3(h) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Cynllun Ffioedd Safonol Uwch – Achosion Cam-drin Domestig

Haen taliadau cyfredol			Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)		
Rhanbarth	Llys	Ffi Safonol Cynrychiolaeth Gyfreithiol	Rhanbarth	Unigolion y gwrandewir achosion ger eu bron	Ffi Safonol Cynrychiolaeth Gyfreithiol
Llundain	Llys ac eithrio'r Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£608	Llundain	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod)	£608
Llundain	Yr Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£729	Llundain	Barnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod	£729
Y tu allan i Lundain	Llys ac eithrio'r Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£507	Y tu allan i Lundain	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod)	£507
Y tu allan i Lundain	Yr Uchel Lys neu'r Llys Gwarchod	£608	Y tu allan i Lundain	Barnwr Uchel Lys neu Farnwr y Llys Gwarchod	£608

Tabl 9(b) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Achosion Teulu eraill

Haen taliadau cyfredol			Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)		
Gweithgarwch	Llysoedd Uwch	Llys Sirol a Llys Achosion Teulu	Gweithgarwch	Barnwr Uchel Lys neu Lysoedd Uwch	Pawb a all wrando ar achosion o'r fath yn y Llys Teulu (ar wahân i Farnwr Uchel Lys neu Lysoedd Uwch)
Anfon llythyrau arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem	Ysgrifennu llythyrau arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem
Derbyn llythyrau arferol	£3.15 yr eitem	£2.70 yr eitem	Derbyn llythyrau arferol	£3.15 yr eitem	£2.70 yr eitem
Galwadau ffôn arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem	Galwadau ffôn arferol	£6.35 yr eitem	£5.40 yr eitem
Paratoi a phresenoldeb (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr	Paratoi a phresenoldeb (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr
Paratoi a phresenoldeb (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£54.90 yr awr	Paratoi a phresenoldeb (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£54.90 yr awr
Presenoldeb mewn llys neu gynhadledd gyda chwmsler	£37.13 yr awr	£32.40 yr awr	Presenoldeb mewn llys neu gynhadledd gyda chwmsler	£37.13 yr awr	£32.40 yr awr
Eiriolaeth (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr	Eiriolaeth (cyfradd Llundain)	£70.56 yr awr	£59.40 yr awr
Eiriolaeth (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£56.70 yr awr	Eiriolaeth (cyfradd y tu allan i Lundain)	£65.75 yr awr	£56.70 yr awr
Amser teithio ac aros (cyfradd Llundain)	£32.18 yr awr	£28.80 yr awr	Amser teithio ac aros (cyfradd Llundain)	£32.18 yr awr	£28.80 yr awr
Amser teithio ac aros (cyfradd y tu allan i Lundain)	£32.18 yr awr	£27.90 yr awr	Amser teithio ac aros (cyfradd y tu allan i Lundain)	£32.18 yr awr	£27.90 yr awr

Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS)

Tabl 1(a) o Atodlen 3 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Achosion gofal neu oruchwyliaeth o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989 – ffioedd graddedig

Haen taliadau cyfredol							Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)						
<i>Llys</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi cynhadledd</i>	<i>Ffi barn</i>	<i>Ffi cyfarfod eiriolwyr</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>	<i>Unigolion y gwrandawriad achosion ger eu bron</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi cynhadledd</i>	<i>Ffi barn</i>	<i>Ffi cyfarfod eiriolwyr</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>
Llys Achosion Teulu	£86.72	£216.81	£127.71	£105.66	£128.16	£506.25	Ynadon lleyg, Clerc Ynadon, Clerc Ynadon Cynorthwyol	£86.72	£216.81	£127.71	£105.66	£128.16	£506.25
Llys Sirol	£95.40	£238.46	£127.71	£105.66	£140.99	£556.88	Barnwr Rhanbarth neu Farnwr Cylchdaith	£95.40	£238.46	£127.71	£105.66	£140.99	£556.88
Yr Uchel Lys	£114.48	£286.16	£127.71	£105.66	£169.20	£668.25	Barnwr yr Uchel Lys	£114.48	£286.16	£127.71	£105.66	£169.20	£668.25

Tabl 1(b) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Achosion Cyfraith Gyhoeddus eraill – Ffioedd graddedig

Haen taliadau cyfredol							Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)						
<i>Llys</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi cynhadledd</i>	<i>Ffi barn</i>	<i>Ffi cyfarfod eiriolwyr</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>	<i>Unigolion y gwrandawriad achosion ger eu bron</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi cynhadledd</i>	<i>Ffi barn</i>	<i>Ffi cyfarfod eiriolwyr</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>
Llys Achosion Teulu	£75.83	£189.59	£127.71	£105.66	£128.16	£464.31	Ynadon lleyg, Clerc Ynadon, Clerc Ynadon Cynorthwyol	£75.83	£189.59	£127.71	£105.66	£128.16	£464.31
Llys Sirol	£83.39	£208.53	£127.71	£105.66	£140.99	£510.75	Barnwr Rhanbarth neu Farnwr Cylchdaith	£83.39	£208.53	£127.71	£105.66	£140.99	£510.75
Yr Uchel Lys	£100.08	£250.20	£127.71	£105.66	£169.20	£612.90	Barnwr yr Uchel Lys	£100.08	£250.20	£127.71	£105.66	£169.20	£612.90

Tabl 2(a) o Atodlen 3 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Cyfraith Breifat Deddf Plant – Ffioedd Graddedig

Haen taliadau cyfredol						Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)					
<i>Llys</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi cynhadledd</i>	<i>Ffi barn</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>	<i>Unigolion y gwrandawriad achosion ger eu bron</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi cynhadledd</i>	<i>Ffi barn</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>
Llys Achosion Teulu	£62.69	£156.74	£125.37	£94.05	£397.04	Ynadon lleyg, Clerc Ynadon, Clerc Ynadon Cynorthwyol	£62.69	£156.74	£125.37	£94.05	£397.04
Llys Sirol	£68.94	£172.40	£125.37	£94.05	£436.73	Barnwr Rhanbarth neu Farnwr Cylchdaith	£68.94	£172.40	£125.37	£94.05	£436.73
Yr Uchel Lys	£82.76	£206.87	£125.37	£94.05	£524.07	Barnwr yr Uchel Lys	£82.76	£206.87	£125.37	£94.05	£524.07

Tabl 2(b) o Atodlen 3 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Cam-drom Domestig – Ffioedd Graddedig

Haen taliadau cyfredol				Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)			
<i>Llys</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>	<i>Unigolion y gwrandawriad achosion ger eu bron</i>	<i>Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)</i>	<i>Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)</i>	<i>Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)</i>
Llys Achosion Teulu	£81.50	£203.76	£361.17	Ynadon lleyg, Clerc Ynadon, Clerc Ynadon Cynorthwyol	£81.50	£203.76	£361.17
Llys Sirol	£81.50	£203.76	£361.17	Barnwr Rhanbarth neu Farnwr Cylchdaith	£81.50	£203.76	£361.17
Yr Uchel Lys	£81.50	£203.76	£361.17	Barnwr yr Uchel Lys	£81.50	£203.76	£361.17

Tabl 2(c) o Atodlen 1 i Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013: Cyfraith Breifat Cyllid – Ffioedd Gradeddig

Haen taliadau cyfredol									Haen taliadau y Llys Teulu (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)								
	Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)	Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)	Uned Gwrandawriad Datrys Anghydfod Ariannol 1	Uned Gwrandawriad Datrys Anghydfod Ariannol 2	Ffi datrysiaid cyflym	Ffi cynhadledd	Ffi barn	Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)	<i>Unigolion y gwrandawriad achosion ger eu bron</i>	Uned Gwrandawriad 1 (hyd at 1 awr)	Uned Gwrandawriad 2 (hyd at 2.5 awr)	Uned Gwrandawriad Datrys Anghydfod Ariannol 1	Uned Gwrandawriad Datrys Anghydfod Ariannol 2	Ffi datrysiaid cyflym	Ffi cynhadledd	Ffi barn	Ffi gwrandawriad terfynol (fesul diwrnod)
<i>Llys</i>																	
Llys Achosion Teulu	£63.18	£157.95	£101.07	£252.72	£126.36	£126.36	£94.77	£443.70	Ynadon lleyg, Clerc Ynadon, Clerc Ynadon Cynorthwyol	£63.18	£157.95	£101.07	£252.72	£126.36	£126.36	£94.77	£443.70
Llys Sirol	£63.18	£157.95	£101.07	£252.72	£126.36	£126.36	£94.77	£443.70	Barnwr Rhanbarth neu Farnwr Cylchdaith	£63.18	£157.95	£101.07	£252.72	£126.36	£126.36	£94.77	£443.70
Yr Uchel Lys	£75.83	£189.54	£121.32	£303.26	£151.65	£126.36	£94.77	£532.44	Barnwr yr Uchel Lys	£75.83	£189.54	£121.32	£303.26	£151.65	£126.36	£94.77	£532.44

Atodiad C: Awgrymiadau/materion eraill a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad

Y prif faterion a godwyd

1. Rhoddodd ymatebwyr nifer o sylwadau ar nodweddion y cynllun cymorth cyfreithiol i deuluoedd presennol nad oeddynt yn uniongyrchol gysylltiedig â strwythur y cynllun na'r newidiadau disgwylidig i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A. Roedd hyn yn cynnwys barn un ymatebydd fod yr elfen ffi safonol ar gyfer paratoi mewn achos gofal a ariennir gan y pwrs cyhoeddus yn y Gogledd yn is ar hyn bryd nag mewn unrhyw ranbarth⁸ arall ond nad oedd llawer o dystiolaeth i gefnogi'r gwahaniaeth hwn. Yn ogystal, lleisiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr bryderon ynghylch pwy fyddai'n paratoi bwndel y llys mewn achosion lle nad oedd y parti arall yn cael ei gynrychioli. Roedd ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn aml eisiau cynnwys dogfennau na fyddent fel arfer yn cael eu cynnwys mewn bwndel llys ac, o'r herwydd, byddai hyn yn cael effaith ar lwyth gwaith a chostau'r eiriolwr.
2. Ond roedd y prif bryderon yn ymwneud ag effaith yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig a'r dull newydd sy'n cael ei fabwysiadu gan y llysoedd mewn perthynas ag arbenigwyr. Yn y cyd-destun hwn, roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn poeni y byddai'n rhaid i eiriolwyr wneud gwaith sylweddol y tu allan i'r tri gwrandawriad a bennir o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig oherwydd yr angen i ddatrys problemau sy'n codi. Er enghraifft, ar ôl i'r Gorchymyn Rheoli Achos gael ei wneud, efallai y bydd angen gwneud amrywiadau o ganlyniad i gyfarwyddiadau a wneir yn y Gwrandawriad Rheoli Achos. Gwnaethant y pwynt bod datrys yr anawsterau hyn yn gallu golygu llawer iawn o amser a gwaith, gyda'r cwnsler yn cael ei gyfarwyddo i reoli'r achos ar y cyd â nifer o bartïon heb wrandawriad arall i leihau'r pwysau a'r straen ar system y llys. O ganlyniad, dadleuodd Cyngor y Bar a'r FLBA y dylai'r lefelau tâl presennol a/neu'r strwythurau gael eu haddasu er mwyn darparu taliadau priodol ar gyfer y cyfryw waith, o bosibl drwy ymestyn y defnydd o Gyfarfodydd Eiriolwyr o dan y Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS)⁹ i ddelio â chyfathrebiadau rhwng eiriolwyr drwy unrhyw gyfrwng sy'n arwain at ddatrys mater ac at arbed amser i'r llys.
3. Dadleuodd ymatebwyr hefyd fod yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i eiriolwyr ddadansoddi dogfennau yn llawer cynharach yn y broses. Roeddynt yn awgrymu bod yr holl waith sy'n gysylltiedig yn cyfiawnhau cael gwared â'r cyfyngiadau presennol ynghylch pryd y gellid hawlio taliad bwndel a faint y dylid ei ganiatáu ar adegau gwahanol.
4. O ran arbenigwyr, roedd ymatebwyr yn dadlau bod y ddibyniaeth gynyddol ar dystiolaeth arbenigol ysgrifenedig yn gorfodi eiriolwyr i baratoi cwestiynau ysgrifenedig i'w gofyn i dystion arbenigol y tu allan i wrandawriadau llys a delio â'u hymateb. Roedd hyn yn golygu gwneud yr un faint o waith paratoi ag a wneir ar gyfer gwrandawriad. Felly, roedd yn hanfodol bod y gwaith hwn yn derbyn y gydnabyddiaeth briodol. Yn y cyd-destun hwn, roedd Resolution yn dadlau, o gofio

⁸ Atodlen 1, Rhan 1 (Tabl 2c), Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013.

⁹ Atodlen 3, Rhan 1, Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013.

am y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Llywydd,¹⁰ y dylai eiriolwyr gael eu talu o dan y cynllun taliadau ychwanegol presennol o dan y FAS¹¹ ar gyfer cymhlethdod mewn achosion lle mae'n rhaid gwneud gwaith paratoi wrth groesholi gweithwyr cymdeithasol a gwarcheidwaid pan maent yn gweithredu fel arbenigwyr.

5. Lleisiodd yr FLBA bryderon am y posibilrwydd y byddai cyfreithwyr yn gofyn i'r cwnsler ddarllen a dadansoddi'r dogfennau ar gyfer y Gwrandawriad Rheoli Achos ond nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu talu am waith o'r fath. Petai gwaith o'r fath yn cael ei wneud, roeddynt yn dadlau y dylai'r cwnsler dderbyn tâl priodol am y gwaith.

Ymateb y Llywodraeth

6. Ar hyn o bryd, mae pedwar math gwahanol o ffioedd rhanbarthol ar gyfer cynrychiolaeth mewn achosion gofal.¹² Cawsant eu cyflwyno yn 2007 i sicrhau cynaliadwyedd cyflenwad y farchnad cyn cyflwyno'r broses tendro cystadleuol. Cafodd yr amrywiadau rhanbarthol eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad *Transforming Legal Aid: delivering a more credible and efficient system*.¹³ Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori hwnnw, mae'r Llywodraeth yn parhau â'r farn mai dim ond petai prinder yn y cyflenwad y byddai modd cyfiawnhau eu cadw yn y tymor hir ac mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r rhain yn y man. Ond, yr asesiad ar hyn o bryd yw y byddai newid o'r fath yn gynamserol cyn mae effaith y newidiadau cwmpas a gyflwynwyd o dan LASPO wedi dod i'r amlwg yn llawn. Yn hytrach, rydym yn bwriadu adolygu'r gwahaniaethau rhanbarthol presennol yn y prisiau yng ngoleuni effaith y newidiadau i gwmpas LASPO a'r diwygiadau sy'n cael eu rhoi ar waith drwy'r ymgynghoriad Gweddnewid Cymorth Cyfreithiol.
7. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gallai fod angen gwneud newidiadau ehangach i'r cynlluniau talu am gymorth cyfreithiol i deuluoedd oherwydd y rhaglen ddiwygio sylweddol sydd ar waith yn y system cyfiawnder teuluol ac, yn arbennig, oherwydd y diwygiadau i'r Amlinellid Cyfraith Gyhoeddus mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Er enghraifft, gall gynnwys effaith defnyddio'r Cyfarwyddyd Ymarfer mewn achosion sy'n cynnwys Ymglyfreithwyr drostynt eu Hunain ac amser paratoi y tu allan i'r llys yng nghyswllt tystion arbenigol, os oes rhai. Yn y dyfodol, mae'n bwriadu gweithio gyda'r cyrff cynrychiadol i sicrhau bod y cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd yn parhau i ddarparu'r tâl priodol am waith sydd wedi gorfod cael ei wneud. Os bydd rhagor o newid yn effeithio ar y cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd, a fyddai'n golygu gorfod ailstrwythuro'r fframwaith tâl presennol neu newid lefelau'r taliadau, byddai'r Llywodraeth yn bwriadu ystyried pa gamau sy'n ofynnol unwaith y daw manylion effaith y newidiadau yn glir ac y bydd modd ei fodelu'n effeithiol.

¹⁰ <http://www.judiciary.gov.uk/Resources/JCO/Documents/Reports/pfd-process-reform-revised-plo-may-2013.pdf>

¹¹ Atodlen 3, Rhan 1, (Tabl1(c)) ac Atodlen 3, Rhan 2 (Tabl 2(d)) o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013.

¹² Atodlen 1, Rhan 1 (Tabl 2(c)), Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013.

¹³ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>

Casgliad

8. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwyntiau a wnaethpwyd ynghylch sut y dylai achosion gael eu dyrannu ac yn arbennig sut y dylid penderfynu ar gymhlethdod, yn ogystal â phryderon ynghylch talu i eiriolwyr o ganlyniad i effeithiau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus peilot a diwygiadau eraill i'r Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol, megis lleihau'r defnydd o arbenigwyr. Nid ydym yn gwybod beth fydd effaith yr holl elfennau hyn eto ac yn achos y broses ddyrannu, mae'n debyg na fydd unrhyw effaith ar y cynllun cymorth cyfreithiol yn hysbys tan y daw'r Llys Teulu newydd i rym ac y rhoddir cyfle i'r broses fynd rhagddi am gyfnod. Os bydd effeithiau ar y cynllun cymorth cyfreithiol, efallai y bydd yn rhaid gwneud rhagor o ddiwygiadau i'r cynlluniau cymorth cyfreithiol i deuluoedd.

Atodiad D: Rhestr Termau

Term	Ystyr
Llys Sirol	Bydd y llysoedd sirol yn ymdrin â materion sifil megis anghydfodau ynghylch contractau, dyledion heb eu talu a hawliadau ynghylch esgeulustod. Mae llysoedd sirol yn delio â holl hawliadau am arian hyd at £50,000. Mae'r llys sirol yn llys gwrandawriad cyntaf – lle bydd achosion sifil yn cychwyn.
Barnwr Cylchdaith	Barnwr rhwng lefel Barnwr Uchel Lys a Barnwr Rhanbarth, sy'n eistedd yn y Llys Sirol a/neu yn Llys y Goron
Barnwr Rhanbarth	Un o swyddogion barnwrol y Llys, ac ymhlith ei ddyletswyddau mae gwrandawrio ceisiadau a wneir mewn achos a gwrandawriadau terfynol o fewn unrhyw derfyn ar ei awdurdodaeth. Arferid eu galw'n Gofrestryddion.
Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon)	Un o swyddogion barnwrol y Llys Ynadon, ac ymhlith ei ddyletswyddau mae gwrandawrio ceisiadau a wneir mewn achos a gwrandawriadau terfynol o fewn unrhyw derfyn ar ei awdurdodaeth.
Cynllun Eiriolaeth Teulu (FAS)	Mae'r Cynllun Eiriolaeth Teulu yn Gynllun Ffioedd Graddedig sy'n darparu trefn talu ar wahân ar gyfer eiriolaeth i'r holl eiriolwyr, ni waeth beth fo'u statws proffesiynol yn ystod achosion teulu.
Llys Teulu	Lluniwyd y Llys Teulu newydd, y bwriedir ei gyflwyno ym mis Ebrill 2014, i greu un pwynt mynediad i system y llys teulu, gan ddisodli tair haen bresennol y llys. Bydd holl lefelau'r farnwriaeth teulu (gan gynnwys ynadon) yn eistedd yn y llys teulu, a bydd y gwaith yn cael ei ddyrannu yn unol â chymhlethdod yr achos.
Llys Achosion Teulu	Y Llys Achosion Teulu yw'r enw a roddir i'r Llys Ynadon lle bydd aelodau o'r panel teulu yn eistedd i wrando ar achos teulu. Mae'n llys gwrandawriad cyntaf yng Nghymru a Lloegr, ac yn delio ag achosion teulu. Caiff achosion eu cynnal gerbron mainc o ynadon lle y neu Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon).
Uchel Lys	Llys sifil sy'n cynnwys tair adran: i) Mainc y Frenhines (neu Adran Mainc y Brenin os Brenin sydd ar yr orsedd) – yn delio ag anghydfodau sifil er mwyn adfer arian, gan gynnwys tor-contract, anafiadau personol, enllib/athrod; ii) Teulu – yn ymwneud â materion priodasol ac achosion sy'n ymwneud â phlant, e.e. gardiaeth; iii) Siawnsri – materion sy'n ymwneud ag eiddo gan gynnwys twyll a methdaliad
Llys Ynadon	Llys lle cychwynnir achos troseddol gerbron ynadon heddwch sy'n ystyried y dystiolaeth/datganiadau ac sydd naill ai'n delio â'r achos eu hunain neu'n traddodi'r achos i Llys y Goron ar gyfer treial ac ar gyfer dedfrydu. Mae ganddo hefyd awdurdodaeth mewn nifer o faterion sifil
Cyfarwyddyd Ymarfer	Mae cyfarwyddyd ymarfer yn brotocol ychwanegol at reolau trefniadaeth sifil a throeddol yn y llysoedd – “dyfais i reoleiddio materion trefniadol bach”.

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi bod unrhyw ddeunydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

**Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael ar fformat arall
drwy wneud cais i christine.okiya@justice.gsi.gov.uk**